# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 2 Rhagfyr 2014** |
| Amser: | **08.30 – 09.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 10 Rhagfyr 2014 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

**NNDM5636**
**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Mick Antoniw (Pontypridd)**
**Alun Ffred Jones (Arfon)**
**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi egwyddorion y Bil Cymorth i Farw.

Mae'r Bil Cymorth i Farw ar gael yn:

http://services.parliament.uk/bills/2014-15/assisteddying.html

**Dydd Mercher 21 Ionawr 2015 –**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Dwristiaeth (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ail-amserlennu'r eitem ganlynol o fusnes o 10 Rhagfyr 2014 i gyfarfod yn y dyfodol:

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

**NNDM5630**
**Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**
**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod menywod wedi gwneud cyfraniad enfawr i fywyd gwaith Cymru ac yn parhau i fod yn rhan hanfodol o economi Cymru;

b) ei bod bron i 100 mlynedd ers i fenywod gael y bleidlais a bron i 40 mlynedd ers y Ddeddf Cyflog Cyfartal;

c) bod gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau nad oes gwahaniaethu sefydliadol yn digwydd yn y gweithle.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â dyfarnu contractau caffael neu arian grant Llywodraeth Cymru i gwmnïau nad oes ganddynt unrhyw gyfarwyddwyr benywaidd ar eu byrddau.

## 4 Pwyllgorau

4.1 Cytuno ar aelodaeth o Bwyllgor y Cynulliad

Trafododd y Pwyllgor Busnes faterion ynghylch cytuno ar aelodaeth y Pwyllgor Cynulliad i ystyried amddiffyn plant rhag cael eu curo ar sail cosb resymol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 i sefydlu aelodaeth y Pwyllgor. Trwy gyfrwng pleidleisio wedi'i bwysoli, yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(ii), pleidleisiodd Rheolwyr Busnes o blaid aelodaeth yn cynnwys dau Aelod Llafur a chynrychiolydd o bob un o'r pleidiau eraill, ac i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan Aelod Llafur. Pleidleisiodd Llafur a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o blaid aelodaeth y pwyllgor, tra pleidleisiodd y Ceidwadwyr Cymreig a Phlaid Cymru yn erbyn.

Fodd bynnag, drwy bleidleisio wedi'i bwysoli, yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(iv), pleidleisiodd Rheolwyr Busnes yn erbyn trefnu dadl ar y cynnig. Pleidleisiodd Llafur a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o blaid trefnu dadl ar y cynnig, tra pleidleisiodd y Ceidwadwyr Cymreig a Phlaid Cymru yn erbyn.

## 5 Y Cyfarfod Llawn

5.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Nadolig

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer toriad y Nadolig.

**UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Busnes, er nad yw ar y Datganiad Busnes eto, y bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu dadl ar y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 ar 20 Ionawr 2015. Gan y bydd y cyfnod sydd ar gael i graffu ar y Rheoliadau yn fyrrach na'r arfer, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac wedi cael ymateb. Caiff y ddadl ei hychwanegu at y Datganiad Busnes ar gyfer cyfarfod yr wythnos nesaf, ar ôl i'r Gweinidog rannu'r Rheoliadau drafft gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.